credu yr hyn a broffesant? Y maent yn meddwl eu bod yn rhywsut: ni ddywedant, mae'n wir, yr hyn a *wyddant* sydd gyfeiliornus; ond wedi'r cyfan, y mae yn ammheus iawn pa un a gredent felly wedi dwys ystyriaeth. *Nac ydynt*, medd Thomas y gôf, a John y saer! Y ffaith yw, byd da a gogoneddus ydyw hwn: y mae yn orlawn o ryfeddodau: ystordy llawn o adnoddau y nef ydyw. Dichon i ddyn ei gamarfer, ac edrych arno mewn goleu annghywir; ac os dysgwylia fwy oddiwrtho nâ ddylai, nid rhyfedd ei fod yn anfoddlon i'r hyn sydd ganddo. Nid yw y Creawdwr da ddim wedi ein bendithio ni âg un fendith fel nad yw yn ddichonadwy i ni i'w throi yn felldith i ni ein hunain; ond nid y byd sydd gyfrifol am hyny: nid ar y byd y mae y bai.

Rhyfeddol a gogoneddus hefyd ydyw y byd dynol. "Ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed," medd y Salmydd, "a'm henaid a wyr hyny yn dda." Gwir yw fod llawer iawn o ddrygioni yn y byd, ond y mae mor wir â hyny fod llawer o ddaioni hefyd. Y maent yn hynod gymmysgedig â'u gilydd, ac y mae rhagluniaeth Duw yn ceryddu yn barhaus ac yn gorchfygu y drwg, ac yn cynnorthwyo y da ynom ni. Na feddyliwn ein bod yn gogoneddu Duw trwy siarad yn ddiystyrllyd ac isel am ei greadigaeth; ond tra yr ydym yn cofio mai nid y byd yma yn unig ydyw ein harosfa, a thra yn cyssuro ein gilydd wrth gofio ein bod yn "ymofyn am wlad well," bydded i ni fendithio Duw, a diolch iddo am y byd mae wedi gweled yn dda i'n gosod ynddo dros ychydig amser, a chydnabyddwn yn onest ein bod yn caru y byd, fel y bwriadodd Ef i ni i wneuthur, ac y bydd yn dda genym i gael bod ynddo cyhyd ag y gwel Ef yn dda i ni fyw ynddo; ac yn lle grwgnach a gofidio yn ei gylch, ymdrechwn wneuthur ereill yn ddedwydd ynddo hefyd, ac i symmud ymaith y drwg a'r pechod sydd yn tywyllu ac yn andwyo yr hyn mae y Creawdwr wedi wneyd mor hardd a daionus.

Yn awr, cymmerwn enghraifft arall. Yn Eglwys Loegr, yr eglwys sefydledig trwy gyfraith, y mae yr hyn sydd yn myned dan yr enw "Credo St. Athanasius" yn cael ei galw yn "athrawiaeth iachus." Gadewch i ni weled beth mae yn ddywedyd. Os oes Llyfr Gweddi Cyffredin genych, gellwch droi ato a'i ddarllen drosodd. Digon fydd gosod i mewn yma ychydig o'r brawddegau mwyaf nodedig:—

"Pwy bynag a fyno fod yn gadwedig, o flaen dim rhaid iddo gynnal y Ffydd Gatholig. Yr hon Ffydd, onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog, *diammheu y collir ef yn dragywydd.* A'r Ffydd Gatholig yw hon: Bod i ni addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod. Nid cymmysgu o honom y Personau, na gwahanu'r Sylwedd. Eithr un Person sydd i'r Tad, arall i'r Mab, ac arall i'r Ysbryd Glan. . . . Felly y Tad sy Dduw, y Mab sy Dduw, a'r Ysbryd Glân sy Dduw. Ac etto nid ŷnt dri Duwiau, ond un Duw. . . . Pwy bynag gan hyny a fyno fod yn gadwedig, synied felly am y Drindod."

Os ewch i'r eglwys hon ar ddydd Sul y Pasc, Sulgwyn, neu Sul y Drindod, neu ar ddydd Nadolig, cewch glywed y geiriau yma yn cael eu hadrodd yn sobr a difrifol gan yr offeiriad, a'r bobl yn uno, fel rhan o addoliad a gwasanaeth yr Hollalluog Dduw. A ydynt yn credu

y geiriau a adroddant? A ydynt yn credu yr hyn a broffesant? Meddyliwch am foment beth mae y gredo yn feddwl, os yw yn meddwl dim. Nid yw y cenedloedd paganaidd dros wyneb yr holl ddaear ddim yn credu felly am y Drindod, felly "yn ddiammheu y collir hwy yn dragywydd," ac felly y mae naw o bob deg o leiaf o drigolion y byd i gael eu gyru i "ffwrn o dân" brwmstanaidd. Y mae yr holl Gristionogion nad ydynt yn ei chredu i gael eu colli "yn ddiammheu." Ni chredai Milton ddim o honi. Ni chredai Syr Isaac Newton ddim o honi ychwaith. Yr oeddynt hwy yn ddynion goleuedig a da, ond o angenrheidrwydd "diammheu y collir hwy yn dragywydd!" Felly gyda golwg ar yr Undodiaid oll. A ydyw yn beth possibl y gall neb gredu hyn? Ni chredai Sior y Trydydd ddim o hyny, ac arferai ef gau ei lyfr pan oedd y gredo yn cael ei darllen neu ei chanu. Ni chredai Archesgob Tillotson ddim o hyny, a dywedai "y dymunai ef i'r eglwys gael gwared o honi!" Ac etto i gyd, y mae yr Eglwyswyr yn parhau i'w darllen gyda phob prysurdeb ymddangosiadol ar ddyddiau pennodedig, er, ar yr un pryd, fod ar lawer o'r offeiriaid hanner cywilydd o honi, ac y mae llawer o'u gwrandawyr, os nid y rhan fwyaf o honynt, yn dweyd yn ddibetrus eu bod yn ei chashau. Y ffaith yw, y maent wedi arfer edrych arni fel rhan o'r gwasanaeth ag sydd yn rhaid myned trwyddo, ac y maent yn ymdrechu gosod rhyw esboniad annaturiol arni, a myned trwyddi goreu y gallont, ac yn y diwedd y maent yn ymgynnefino cymmaint â hi, fel nad ydynt yn meddwl dim braidd am wir ystyr yr hyn a ddywedant.

A ydyw achos crefydd yn cael ei hwylusu trwy y fath beth, ynte ei luddias? Sicr yw ei fod yn cael ei luddias yn ddychrynllyd! Y mae llawer o'r sawl sydd yn meddwl am y geiriau dyfynedig yn teimlo yn ofidus, ac yn cywilyddio wrth feddwl fod y fath yn cael eu hadrodd gyda sobrwydd ymddangosiadol yn ngwasanaeth y Duw byw. Gadewch i ni gydnabod yn ngwyneb haul a llygad goleuni nad crefydd Iesu Grist ydyw hyn, ond gwyrdroad dychrynllyd o honi. Bydded i'r eglwysi addef ac amddiffyn yr athrawiaethau gwell, y rhai sydd yn cael eu dal a'u coleddu gan yr addolwyr mwyaf goleuedig a rhesymol. Bydded iddynt i gydnabod mai Duw o gariad ydyw y Duw hwnw y daeth ein Hiachawdwr i'w amlygu, a'i fod yn edrych yn ddyfnach nâ'r gredo, yn derbyn pawb sydd yn gweithredu cyfiawnder—pawb sydd yn gwneuthur barn ac yn hoffi trugaredd, a bod y cenedloedd paganaidd yn cael eu caru a'u bendithio ganddo, ac nad oes yr un o honynt mewn perygl i gael ei golli am dragwyddoldeb. Agorwn ein llygaid i ganfod gogoniant cyflawn cariad Duw, a'i drugaredd trwy Efengyl ein Hiachawdwr Iesu Grist, ac ymaith â phob peth sydd yn groes i'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb. Ymaith a chredoau ac erthyglau ffydd o waith dynol, cladder hwy yn môr annghof. a chofleidiwn y gwirionedd fel y mae yn Iesu Grist, ein hunig Athraw a'n Harweinydd at y Tad.

H.

PAUL.

Yn fy ysgrif o'r blaen, gadewais Paul yn myned ar ei daith tua Damascus—y daith ryfeddaf, ac i'r apostol ei hun, y bwysicaf o'i holl deithiau. Wrth gychwyn, efe oedd Saul yr erlidiwr, yn ngwasanaeth y Sanhedrim, a chanddo lythyrau oddiwrth yr archoffeiriad a'r henaduriaid at y synagogau, yn ei awdurdodi i wneuthur pob hafog a allai o'r Cristionogion yn y ddinas hono; ond cyn cyrhaedd pen y daith, yr ydym yn cael yr un person yn syrthio ar y llawr, ac mewn braw yn gofyn i Iesu Grist, "Arglwydd, beth a fyni di i mi ei wneuthur?" Rhoddasom o'r blaen ychydig o hanes Tarsus, dinas enedigol Paul; a chan mai yn agos i Damascus y *ganed ef drachefn*, neu y cymmerodd y fath amgylchiad le ag a achosodd gyfnewidiad trylwyr yn mywyd ac hanes yr apostol, nid annyddorol, efallai, fyddai ychwanegu yma ryw ychydig linellau o hanes y ddinas hon. Dywedir ei bod yn un o'r dinasoedd henaf yn y byd, ac, os coelir traddodiad, mai yn rhywle yn y cyffiniau y preswyliai Adda wedi iddo gael ei droi allan o baradwys. Y mae y ddinas yn aros hyd y dydd heddyw, ac yn tynu sylw ymdeithwyr ar gyfrif ei sefyllfa ardderchog mewn gwastadedd eang a phrydferth. Y mae yn gorwedd yn y gogledd-ddwyrain o Syria, ac yn 130 neu 140 o filldiroedd o Jerusalem, yr hyn a gyfrifid gan yr Iuddewon yn daith o chwech i wyth o ddiwrnodau. Dywed Josephus i'r ddinas gael ei sylfaenu gan Uz, ŵyr Shem; ond hyn sydd sicr, gan nad pwy oedd ei sylfaenydd, ei bod ar gael yn nyddiau Abraham, oblegyd dywedir yn Genesis xiv. a xv., bod Eleazar, goruchwyliwr ei dy, yn enedigol o'r lle. Buasai Damascus yn brif ddinas Syria, pan oedd y llywodraeth hono mewn goruchafiaeth; wedi hyny, bu dan lywodraeth yr Assyriaid, y Babyloniaid, y Persiaid, a'r Rhufeiniaid yn olynol. Yn amser troedigaeth yr apostol, ymddengys oddiwrth 2 Cor. xi. 32, fod y ddinas dan lywodraeth Aretas, brenin Arabia, oblegyd dywed Paul i'r llywydd tano geisio ei ddal ef, er mwyn gwneuthur cymwynas i'r Iuddewon. Ni wyddis yn iawn pa beth oedd sefyllfa boliticaidd y ddinas y pryd hwnw, ond y dyb yw, yn absenoldeb tystiolaeth bendant, i'r Ymerawdwr Caligula, pan ddaeth i'r orsedd yn y flwyddyn A.D. 37, i alltudio Herod Antipas, tetrach Galilea, a rhoddi llywodraeth Damascus i Aretas, ei dad-yn-nghyfraith, ac felly nad oedd y ddinas heb fod mewn rhyw fesur dan awdurdod a dylanwad Rhufain.

Wedi merthyriad Stephan, a chael o'r Cristionogion eu brawychu yn ddirfawr gan yr amgylchiad, naturiol oedd iddynt ymwasgar a ffoi am ddyogelwch. Aethant mewn gwahanol gyfeiriadau, fel yr oedd amgylchiadau a chyfleusderau yn rhoi; ond pa un ai ffoedigion o Judea, ai ynte Iuddewon dychweledig yn byw yn y lle, oedd Cristionogion Damascus, nid oes genym fodd i benderfynu. Ymddengys, modd bynag, fod gan Paul reswm digonol i gredu fod y sect newydd yn dra llwyddianus yno. Tua'r lle yma y cychwynodd Saul wedi der-

byn awdurdod oddiwrth y Sanhedrim i ddwyn y Cristionogion oedd yno yn rhwym i Jerusalem. Ni bu yn alluog i gyflawnu ei amcan. Mae genym dystiolaeth Paul ei hun yn mherthynas i'w droedigaeth pan yn agos i Damascus yn Actau xxii. a xxvi. Rhydd Luc hefyd ei adroddiad yntau o'r unrhyw amgylchiad yn Actau ix. Gwyr pawb sydd wedi darllen yn bwyllog ac ystyriol fod Paul a Luc yn amrywio ychydig oddiwrth eu gilydd; ond nid yw'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt o nemawr bwys: mae'r ffaith yn aros yr un. Yn meddyliau rhai yn credu yn nghyflawn ysprydoliaeth yr Ysgrythyrau, dylai y gwahaniaeth achosi rhyw betrusder; ac y mae yr annghrediniwr, yr hwn sydd yn cymmeryd gafael yn mhob gwelltyn, yn cael ynddo ychydig ateg i'w annghrediniaeth.

Gyda golwg ar natur troedigaeth Paul, myn rhai gyfrif am dani mewn ffordd naturiol yn debyg fel y canlyn:—Dichon fod gan Paul gariad mawr at y gwirionedd, ei fod yn werthfawrocach yn ei olwg nâ dim arall, a bod ei enaid yn sychedig am wybodaeth o hono; fod rhyw argraffiadau wedi cael eu gwneuthur ar ei feddwl nes peri cryn ammheuaeth ac aflonyddwch yn ei fynwes; ei fod wedi rhoddi gwrandawiad i gynghorion rhesymol a hynaws ei athraw parchus, Gamaliel, yr hwn a ddywedasai (Actau v. 38, 38), "Ac yr awr hon, meddaf i chwi, Ciliwch oddiwrth y dynion hyn, a gadewch iddynt: oblegyd os o ddynion y mae y cynghor hwn, neu y weithred hon, fe a ddiddymir; eithr os o Dduw y mae, ni ellwch chwi ei ddiddymu, rhag eich cael yn ymladd yn erbyn Duw." Yr oedd wedi clywed amddiffyniad Stephan, ac wedi bod yn llygad-dyst a rhagor o'i ferthyriad. Ond yr oedd yspryd Phariseaeth wedi gwreiddio mor ddwfn ynddo fel nas gallai Paul ymollwng gyda'r argraffiadau hyn, a gwrthsefyll cymhelliadau naturiol a chryfaf ei feddwl. Gosododd daw ar y llais dystaw main a ddywedai ryw bethau pwysig wrtho; gwrthwynebodd y meddyliau ffafriol a gynnygent eu hunain yn annewis iddo o barthed i'r athrawiaeth newydd fel awgrymiadau Satan, yr hwn, fel y credai, oedd yn cymhell dynion i wrthryfela yn erbyn awdurdod yr hen draddodiadau, ac felly, gyda mwy o frwdfrydedd a phenderfyniad nâg o'r blaen, safodd i fyny yn erbyn y sect newydd. Etto nis gallai yn hollol gael llonydd gan y meddyliau hyn a godent o'i fewn, a dystewi llais cydwybod, yr hon a'i ceryddai am ei benboethni. Aeth yn ymdrech boeth ac o ddifrif yn ei enaid, a phan yn y cyflwr hwn, cymmerodd amgylchiad allanol le yr hwn a wnaeth y fath argraff arno nes addfedu a gorphen y gwaith oedd yn myned yn mlaen oddifewn. Pan oedd Paul a'i gwmni heb fod yn mhell o Damascus, goddiweddwyd hwynt gan ystorm ddisymwth o fellt a tharanau; tarawyd Paul gan fellten, a syrthiodd ar y llawr yn ddideimlad; meddyliodd mai Crist oedd yr achos o'r trychineb hwn—ei fod yn ymddial arno am ei erlid, nid Efe yn bersonol, eithr y Cristionogion, yr hyn oedd yr un peth. Wedi ei ddychrynu yn ddirfawr, a'i feddwl wedi cael ei derfysgu, credodd fod Crist yn bersonol wedi dyfod i'w gyfarfod ac ymddangos iddo ar y ffordd, pan mewn gwirionedd nad oedd dim yn bod ond yn unig yr hyn a gymmerai le yn ei feddwl ei hun. *Mewnol* ac

nid *allanol* oedd yr ymddangosiad, ond fod Paul yn ei gyfyngder, wedi ei ddallu gan y fellten, a'i syfrdanu gan y daran, wedi camgymmeryd yr *allanol* yn lle'r *mewnol*. Ond a chaniatau y gellir cyfrif am droedigaeth yr apostol yn y modd hyn, a ydyw achosion naturiol yn ddigon i gyfrif am Ananias ac yntau yn cyfarfod â'u gilydd yn Damascus? A chymmeryd cennad i osod i mewn ryw ychydig bethau na sonir am danynt yn yr hanes, gwneir cynnyg at hyn etto fel y canlyn:—Yr oedd Ananias cyn ei droi i fod yn Gristion yn sefyll yn uchel yn mhlith yr Iuddewon ar gyfrif ei dduwioldeb a'i ymlyniad wrth y gyfraith, ac nid yw yn annhebyg nad oedd ef a'r apostol yn adnabyddus â'u gilydd yn Jerusalem yn flaenorol i hyn. O leiaf yr oedd Paul wedi clywed am ddoniau ysprydol annghyffredin Ananias, a meddyliodd yn ddigon naturiol y gallai un ag oedd yn sefyll mor uchel yn mhlith y Cristionogion ei iachâu ef, a'i waredu o'i gyflwr anffodus presenol; a chan mai hyn oedd ar ei feddwl yn barhaus, ei ddychymmyg a'i trodd yn weledigaeth iddo. O'r tu arall, gallwn dybio fod Ananias wedi clywed rhywbeth am y cyfnewidiad mawr oedd wedi cymmeryd lle yn Paul, ond etto nad oedd yn llwyr gredu yr hanes nes y cafodd yntau weledigaeth, a hyny trwy weithrediad achosion naturiol, fel yn achos Paul.

Yn awr, gyda golwg ar y cynnyg a wneir i gyfrif am droedigaeth Paul trwy weithrediad achosion naturiol, fel y ceisiwyd dangos uchod, yn hytrach nâ golygu bod dim yn wyrthiol yn yr amgylchiad, y mae yn ymddangos i mi yn eithaf annaturiol. Os derbynir hanes troedigaeth Paul o gwbl, derbynier yr oll o hono, hyd nes cael profion pendant nad ydyw o un awdurdod, neu ei fod yn ddiffygiol; a derbynier ef yn ei ystyr naturiol, heb wneuthur gorchest i'w ystwytho, a'i feichio âg amcaniaethau, er mwyn cauad allan y goruwch-naturiol. Nid oes un prawf fod cynghorion Gamaliel, a phregeth a merthyrdod Stephan, wedi cael un dylanwad ar feddwl Saul. Pa le yr ydys yn cael allan fod Cristionogaeth a Phariseaeth yn gwrthweithio eu gilydd yn ei feddwl pan ar ei ffordd i Damascus, nes tangnofi cryn lawer o'i yspryd erlidigaethus, ac yn y diwedd i dymhestl o fellt a tharanau droi'r fantol o du Cristionogaeth, ac i Paul yn ei ofn gredu ei fod yn gweled Crist? Pa sail sydd i gredu i Paul ac Ananias ddyfod i gyffyrddiad â'u gilydd yn Damascus trwy gyfrwng gweledigaethau cyffelyb, y rhai y gellir cyfrif am danynt yn annibynol ar ddim goruwch-naturiol? Yn ol yr hanes a rydd Paul ei hun, ni ymddengys fod dim yn ei amgylchiadau yn flaenorol, nac un achos cuddiedig yn gweithio yn ei fynwes yn arwain yn naturiol i'r cyfnewidiad disymwth a rhyfeddol yr aeth trwyddo. Mae Paul yn ddiammheu yn priodoli ei droedigaeth i ras Duw yn cyfryngu mewn modd goruwch-naturiol i'r perwyl, ac nid oes sail i feddwl lai nad yw yr hanes a rydd yn berffaith onest a didwyll. Pan ar ei ffordd, ac yn agoshau at Damascus, dywed i oleuni mawr o'r nefoedd, mwy nâ dysgleirdeb yr haul, ei amgylchynu yn ddisymwth, ac iddo glywed llais yn ei anerch gan ddywedyd, "Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?" "Yntau gan grynu, ac a braw arno, a ddywedodd, Arglwydd, beth a fyni di i mi ei wneuthur?" Yr Iesu a orchymmyn.

odd iddo i fyned i Damascus, ac y byddai iddo gael gwybod yno y gwaith oedd ar ei gyfer. Saul, wedi codi oddiar y ddaear, ond yn methu gweled dim, a arweiniwyd erbyn ei law i'r ddinas gan y rhai oeddent yn cyd-deithio âg ef. Saul a fu felly yn Damascus am dri diwrnod, heb weled na bwyta nac yfed dim, ac yna yr iachâwyd ef gan un o'r enw Ananias, yr hwn hefyd a'i bedyddiodd ef, gan ddywedyd wrtho, "Duw ein tadau ni a'th ragordeiniodd di i wybod ei ewyllys ef, ac i weled y cyfiawn hwnw, ac i glywed lleferydd ei enau ef; canys ti a fyddi dyst iddo wrth bob dyn o'r pethau a welaist ac a glywaist. Ac yr awr hon, beth yr wyt ti yn ei aros? Cyfod, bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau, gan alw ar enw yr Arglwydd." Gan aros gyda'r dysgyblion oedd yn Damascus dalm o ddyddiau, yn ebrwydd efe a bregethodd Grist—mai Mab Duw oedd. Swm a sylwedd yr hanes uchod yw i droedigaeth Paul gael ei heffeithio gan argyhoeddiad trwyadl fod yr Iesu, yr hwn a gredai oedd yn farw, yn awr yn fyw, ac yn eistedd ar ddeheulaw Duw mewn gogoniant. Ac os y priodola efe yr argyhoeddiad hwn i ymddangosiad Iesu Grist yn bersonol iddo ar y ffordd rhwng Jerusalem a Damascus, pa beth all fod yr amcan mewn golwg wrth geisio cyfrif am y ffaith mewn ffordd naturiol? A yw yn debyg fod yr Apostol mor waned ei feddwl a chredu ar seiliau gau neu annigonol, a'n bod ni yn awr yn alluog i farnu yn well nâg ef ei hun pa fodd y bu? Darllener ei bregethau yn Antiochia ac Athen, ei amddiffyniad o hono ei hun gerbron Ffelix ac Agrippa; darllener ei epistolau at y gwahanol eglwysi Cristionogol, a gofyner ai dyn penwan, hygoelus, a allasai siarad, ysgrifenu, ac ymresymu fel hyn? Etto, efallai y dywed rhywun mai twyllwr o'i fodd oedd Paul, ac mai anwiredd i gyd yw ei 'stori. Os twyllwr oedd, pa fodd mae cyfrif am ei lafur a'i ddyoddefiadau, a'r holl hunan-aberth a wnaeth yn gysson â chymmeriad o'r fath? Hefyd, pa fodd y beiddiai daenu anwiredd mor noeth pan yr oedd cymmaint o gyfleusdra i'w ddynoethi? Pa le yr oedd cydymdeithwyr Paul yr holl ffordd o Jerusalem i Damascus, gweision yr arch-offeiriad, y rhai yn sicr a wyddent bob peth a ddygwyddasai? A oedd y rhai hyn oll wedi cytuno â'r apostol i dwyllo'r bobl, yn Iuddewon a Christionogion? Os nad oeddent, paham na fuasent yn cael eu gwysio yn mlaen yn dystion yn erbyn Paul, pan oedd mor wyneb-eofn yn haeru'r fath gelwyddau rhyfygus yn llysoedd ei wlad? Etto, pan y mabwysiadodd Paul y grefydd newydd, a phan y dechreuodd ei phregethu gyntaf yn synagogau Damascus, gan ddywedyd, wrth gwrs, pa fodd yr oedd wedi cael ei droi yn Gristion, er syndod mawr i'r Iuddewon, y rhai a wyddent ar ba neges yr oedd wedi cychwyn o Jerusalem ychydig ddiwrnodau yn flaenorol, paham na fuasai y rhai hyny yn uniongyrchol yn dyfod yn mlaen gyda thystiolaeth i'r gwrthwyneb? Mae rheswm yn dywedyd y buasent yn sicr o wneuthur hyn pe buasai dim ond twyll yn bod. Yn mhellach, hyd amser troedigaeth Paul yr oedd Cristionogaeth, fel rheol, yn cael ei chyfyngu i'r Iuddewon. Nis gwn a oedd Pedr etto yn deall yn iawn ei bod i gael ei phregethu i'r Cenedloedd yn gyffredinol, fod canolfur y gwahaniaeth i gael ei dynu i lawr rhwng yr enwaediad a'r dienwaed-

iad; ond yn awr agorwyd y drws led y pen i ollwng pawb yn ddiwahaniaeth i mewn i'r eglwys Gristionogol. Paul fu'r prif offeryn i wneuthur hyn, a bu hyn yn achos i gynbyrfu yr holl Gristionogion yn mron yn ei erbyn. Nid yn unig cafodd ei wrthwynebu hyd yr eithaf, ond amlygwyd cryn ddigofaint tuag ato. Yn awr, os nad oedd Paul ond ffug-honi apostolaeth, os nad oedd mewn gwirionedd wedi cael ei alw gan Iesu Grist i'r swydd, a hyny ar ei ffordd i Damascus, mewn modd hynod a gwyrthiol, fel y mynai ef i'r Cristionogion i gredu am dano, onid y peth hawddaf yn y byd fuasai dynoethi'r twyll, dystewi yr apostol, ac yna cau'r drws yn erbyn y Cenedloedd? Gallasai cydymdeithion Paul, gallasai'r Cristionogion yn Damascus, ac yn enwedigol gallasai Ananias, yr hwn a wyddai yr holl amgylchiadau, osod taw arno; gallasent gydymfyddino yn ei erbyn, a'i amddifadu o bob awdurdod fel apostol am byth. Ond yn lle dwyn un cyhuddiad o dwyll yn ei erbyn, ni wnaethant ond ymresymu âg ef. Oddiwrth hyn yr ydys yn casglu yn anocheladwy fod tystiolaeth Paul yn cael ei choelio, a'i fod yntau yn cael ei dderbyn fel llestr etholedig i Grist i ddwyn ei enw gerbron y Cenedloedd, a breninoedd, a phlant Israel. Yr ydys yn gadael Paul yn awr yn pregethu Crist yn Damascus.

PAULIAD.

"DARN UNDODAIDD SIR ABERTEIFI.

(O'R CYLCHGRAWN AM IONAWR, 1873, TUDAL. 16.)

"ERTHYGL V.

"WEDI taflu golwg dros rai o'r pethau a ymddengys i ni yn ddiffygion pwysig mewn Undodiaeth, fel ei dysgir yn y darn hwn, y cwestiwn a ofynir bellach yw, Ai diffygion *Undodiaeth fel cyfundrefn* ydynt, ai ynte diffygion *Undodiaid y darn hwn* yn eu dull o ddysgu a gweithio eu cyfundrefn allan? Neu, a newid geiriad y cwestiwn, ai Undodiaeth wedi cyflawn ddadblygu ei rhagoriaethau, ac yn ymddangos gerbron y byd yn ei gwisgoedd priodol ei hun, ac yn y wedd oreu arni, a welir yn y darn hwn; ai yntau Undodiaeth heb orphen ei dadblygu, neu wedi dirywio ar ol hyny? Ai pren deiliog, teg o ffrwyth, prydferth yn hâf ei lwyddiant, a dybir ydyw, ai ynte pren mewn dail gwywedig yn hydref neu auaf y flwyddyn? Os ydyw Undodiaid y darn hwn yn rhoddi golwg deg ar y gredo hon a'r broffes, yna y maent yn addef y diffygion, ac nid oes genym ond cydymdeimlo a hwy, a dymuno diwygiad. Ond os fel arall, yr ydym yn dymuno arnynt ail-feddwl, a gwnawn ninau yn un peth.

"Mae o bwys mawr i bob enwad, ac i'r Undodiaid yr un fath, a ydynt yn dal digon o sylw arnynt eu hunain; a ydynt y peth y dylent fod; ac a ydynt y peth y maent yn ddymuno fod yn y dyfodol. Nid ydym yn meddwl am i'r Undodiaid gymharu eu hunain a'r Undodiaid yr ail ganrif, y rhai y dywedai Dr. Priestley oedd yr Undodiaid puraf; nag a'r ddau Socinus ar y Cyfandir yn yr 16eg ganrif; na chwaith a John Biddle, M.A., a'i ganlynwyr yn Lloegr yn 17eg ganrif. Pe byddent yn myned i gymharu eu hunain ag ereill tebyg iddynt mewn syniadau crefyddol, gallant gael

rhai yn nes atynt, sef hen Undodiaid Cymreig y darn hwn yn nechreu y ganrif bresenol. A byddai yn dda iddynt hwy a ninau, a hyny yn aml, gymharu yr hyn ydym yn awr a'r peth oeddym yn ein dechreuad, er mwyn ambell wers i ddysgu diolchgarwch am ddiwygiad ar y naill law, ac ambell wers i ddysgu cywilydd a hunanffieiddiad oblegid dirywiad ar y llaw arall, a therfynai yr oll efallai mewn mwy o hunanymwadiad er lles y byd. Ond ein meddwl ni yn awr wrth ddyweyd am ddal mwy o sylw arnom ein hunain yw, y dylem ddal ein crefydd a'n dull o'i hymarfer yn wyneb arwyddion yr amserau yn mha rai yr ydym yn byw, i edrych a ydyw eu cyfundrefn hwy o grefydd, fel y mae yn cael ei gweithio allan mewn buchedd grefyddol a chymdeithasol, yn y darn hwn, yn gymhwys er gwneyd y byd yr hyn y dylai fod? A ydyw y 'llais' hwn yn cydfyned ag amcan holl oruchwyliaethau Duw tuag at y byd, sef 'adeiladaeth yr eglwys?' Nid rhywfath o eglwys, ond eglwys 'iddo ei hun' a fyn Duw gael o'r byd; eglwys fyddo o hyd yn galw arno, yn ymddiried yn wastad ynddo, yn ufuddhau iddo, ac yn dal cymundeb parhaus ag ef. Eglwys debyg iddo mewn natur, egwyddor, ac ymarweddiad, ac yn derbyn ei holl nerth i weithio drosto, a dylanwadu yn santaidd ar y byd, o'i hagosrwydd ato a'i thebygolrwydd iddo. Ac y mae y rhai dibroffes yn gwybod yn bur dda pa fath un y dylai eglwys *Dduw* fod, ac os na bydd y proffeswyr yn myned yn mhell mewn tebygolrwydd iddi, cant eu taflu yn ol a'r gorchymyn, 'Y meddyg, iachâ dy hun,' os ceisiant ddangos i'r byd ei ddyledswydd.

"Yn awr, mor bell ag yr ydym yn deall, y mae y diffygion ydym wedi nodi yn yr erthygl flaenorol, yn dangos fod yr Undodiaid yn y darn hwn yn mhell o fod yr hyn y myn Duw i'w eglwys Ef i fod, ac yn mhell o fod yr hyn y gallent ac y dylent hwythau fod. Ac nid ydym wedi myned i mewn i'r mater o gwbl yn y crefyddolder a'r ysbrydolrwydd a berthyn iddo, dim ond edrych arno yn ngoleu rheswm a synwyr cyffredin. Mae athroniaeth foesol ar unwaith yn condemnio y diffygion ydym wedi nodi. Nid oes eisieu i neb agor ei Feibl er mwyn dysgu y pethau hyn, ac nid oes eisieu chwaith cael yr un cyffes ffydd, na phenderfyniadau cymanfaoedd o un math gerbron, er mwyn profi eu cyfreithlondeb neu eu hanghyfreithlondeb, gan nad ydynt yn myned yn mhellach na'r hyn a ddysgir mewn llyfrau ar *Ethics* ymarferol. Y fuchedd ydym wedi gymeryd yn safon i farnu y lleisiau, ac nid oes neb yn amheu nad yw buchedd dyn yn cynwys ei holl ddyledswyddau tuag at ei Greawdwr a thuag at ei gydgreaduriad, tuag at y byd hwn a'r byd a ddaw. Y mae y cysylltiad sydd yn bodoli rhwng enaid a chorff hefyd mor agos, fel y mae y naill o angenrheidrwydd i weithio allan yr hyn a feddylir ac a gredir gan y llall. A pha egwyddorion bynag fyddo yn llywodraethu yn y meddwl, ymarferiadau y rhai hyny a arddangosir gan y corff. Ni all ffynon o'r un llygad roddi dwfr melus a chwerw, ac ni ddichon y pren ffigys ddwyn olifiaid. Wrth ei ffrwyth yr adnabyddir pren, ac wrth ei fuchedd yr adnabyddir dyn. Ac felly i'r cwestiwn ydym wedi roddi i'w ateb y tro hwn, sef pa un ai diffygion y grefydd Undodaidd, ai ynte diffygion Undodiaid y darn hwn, yw y diffygion ydym wedi nodi a'u cyffelyb, rhaid i ni ddyweyd eu bod i raddau yn bob un o'r ddau, ond yn benaf yn ddiffygion y grefydd ei hun. Mae yn wybyddus i bawb sydd yn gyfarwydd a hanes gwahanol genedloedd y byd a'u crefyddau, fod bywyd y rhan fwyaf yn cyfateb i natur y grefydd a broffesant, ac yn benaf yn cyfateb i'r duw neu y duwiau a broffesant eu haddoli. Yr ydym yn cael fod cenedl Israel yn aml yn gweithredu yn groes i'r syniadau oeddynt wedi gael am y gwir Dduw, ond ni chymerodd hyny le erioed heb iddynt goleddu egwyddorion yn y meddwl oedd yn cymeryd lle Duw, ac ar yr un pryd yn groes iddo, ac i'r enwadau uniongred, fel eu gelwir, y rhai sydd a'u buchedd yn hollol groes i'r hyn a gredant am y gwir Dduw, ond un peth sydd i'w ddyweyd am y

cyfryw ag am yr Iuddewon. Ceir dynion sydd wedi dibrisio eu hunain hefyd yn perthyn mewn rhyw ystyriaeth i bob enwad, ond nid am y rhai hyny yr ydym yn son. Mae y beiau ydym wedi nodi yn perthyn i'r dynion a ystyrir yn *oreu* yn mysg Undodiaid y darn hwn, a phe na byddent felly, ni fyddai a wnelem a hwynt o gwbl. A dyma y rheswm dros ddweyd mai rhyw ddiffyg yn eu crefydd ydyw, ac nid yn y dynion. Nid yw y cymhellion i dduwioldeb sydd yn eu crefydd yn ddigon cryfion. Rhaid i fuchedd dda, yn ei pherthynas a Duw ac a dynion, gael rhyw gymhellion cryfion a sefydlog y tucefn, er ei chael i droi yn ei chylch yn rheolaidd a chysson; yr un fath ag olwyn mewn peiriant ag y mae yn rhaid iddi wrth y cyssylltiadau ag olwynion ereill, a'r oll o'r achos symmudol er peri y cylchdroad. Yn awr, beth yw y gwendid mawr sydd yn y grefydd Undodaidd yn peri nad yw eu dynion goreu ond yn brin iawn yn eu cyflawniad o'u dyledswyddau crefyddol, fel eu dysgir gan Feibl a rheswm? Goddefer i ni ddweyd ein barn ar hyn etto.

"Yr ydym wedi awgrymu mai syniadau cyfeiliornus am Dduw yn benaf sydd yn gwanhau y cymhellion i fuchedd santaidd, ac felly yr ydym yn credu am y grefydd Undodaidd. Nid yw Duw yn cael y lle a'r parch a deilynga ynddi. Nid yw felly fel gwrthddrych addoliad. Nid oes eisieu i ni ddadleu yn ei gylch yn dri o Bersonau, nac fel Duw yn Nghrist yn y mater yma, gan fod rheswm yn dysgu pawb i addoli yr hwn a addefant fel eu Duw. Ac os ei addoli o gwbl, goreu i gyd po fwyaf a geir at hyny, a pho amlaf y gwna y rhai hyny addoli. Yr oedd y grefydd batriarchaidd yn hynod am addoliad yn y teulu, trwy godi allorau a galw ar enw yr Arglwydd. Byddai y tad yn gwneyd hyny dros y teulu, a'r mab hynaf yn cymmeryd ei le os byddai yn absenol. Mae y grefydd seremoniol yn amlwg fel un fanwl yn nghylch ei aberthau dyddiol, wythnosol, misol, a blynyddol. Ond Cristionogaeth sydd wedi sylweddoli addoliad yn ei gyssylltiad a dyn oreu. Mae hi yn gwneyd pob dyn yn offeiriad, fel y mae y Cristionogion i gyd yn 'freninol offeiriadaeth,' yn gystal ag yn genedl santaidd, i 'offrymu aberthau ysbrydol, cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist.' Ac felly nid brenin sydd i wneyd hyn dros ddeiliaid, offeiriad dros blwyfolion, na gweinidog dros gynnulleidfa, ond pob un i fod yn offeiriad i offrymu aberthau ysbrydol. Ac felly y mae gweddiau cyhoeddus mewn cymdeithas, yn deuluaidd neu gynnulleidfaol, yn angenrheidiol er arwain y rhai fyddo yn bresenol at yr addoliad, yn fwy nag er gwneyd hyny drostynt. Y mae ffurf deuluaidd o ran dymuniad, a dyddiol o ran amser, i'w gweled trwy holl weddi yr Arglwydd; ac y mae y rhagenw *ni* a arferir yn cynnwys ynddo hefyd yr unigol yn gystal a'r casgliadol, ac yn dangos y dylai pob dyn ei gweddio o ran ffurf, a hyny pob diwrnod. Cawn hefyd enghreifftiau lawer o ofyn bendith ar ymborth neu ddiolch am dano, yn gystal a a hanes am lawer o gyfarfodydd gweddiau cyhoeddus, a hyny yn y Testament Newydd; ac nid yw yr oll o'r pethau hyn ond pethau y mae rheswm ei hun yn dangos ddylem wneyd. Gan ein bod yn ymddybynu yn llwyr a pharhaus ar Dduw, dywed rheswm fod rhwymau parhaus arnom i'w addoli. A chan fod y naill diwrnod ar ol y llall, a'r naill drugaredd ar ol y llall mewn diwrnod, i gyd yn drugareddau newyddion na chawsom erioed o'r blaen, y mae rheswm yn gystal a Beibl yn dyweyd, 'Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd.' 'Wel,' medd rhai, dylem addoli o hyd.' Yr ydym yn ateb mai dyna y ddyledswydd, ac mai dyna wneir yn y wlad berffaith fry; ond y fath ydyw anmherffeithrwydd y byd hwn, fel na allwn wneyd hyny yn ddidor. Ond gan mai hyn yw ein dyledswydd, mae hyny yn dangos ein rhwymedigaeth arbenig i wneyd hyny mor aml ag y gallom, a hyny yn ddiesgeulus, yn enwedig yn y mwynhad o drugareddau cylchynol yn bersonol, teuluaidd, cymdeithasol, a gwladol. Nid yw y pethau ydym wedi nodi ond pethau corfforol a thymorol gan mwyaf; y mae rheswm drachefn yn ein dysgu yn ddigon

eglur ein bod yn ymddibynu yn fwy llwyr ar Dduw am bethau meddwl, pethau ysbrydol a thragwyddol, yr hyn o hyd sydd yn cynyddu ein rhwymedigaeth i'w addoli a'i wasanaethu. Heblaw hyn, os ydym yn caru Duw ac yn meddwl ei fod yntau yn ein caru ni, mae synwyr cyffredin yn ein dysgu, fod yr elfenau cymdeithasgar sydd mewn dyn yn ei rwymo o'i fodd i dynu at wrthrych ei serch. Ac os felly, y mae Duw a dyn yn gyfeillion mawr iawn, ac nid oes dim yn fwy o ddedwyddwch i gyfeillion na chael gweled eu gilydd yn aml, goreu i gyd po amlaf y byddo hyny, a pho hwyaf y gyfeillach wedi cyfarfod. Mae y casgliad yn ddigon amlwg.

(Fw barhau.)

TUA'R AIPHT A CHANAAN.

Wel, wedi gorphen ciniaw, a chymmeryd ychydig hwe i anadlu, awd allan i ystwytho tipyn ar y cymmalau, ac i edrych beth oedd i'w weled. Yr oedd yn naturiol i ddysgwyl fod rhywbeth yn werth i'w weled yn Brussels, prif ddinas Belgium; ac y mae'r adeiladau yn ardderchog iawn—yr eglwysi (pabyddol gan mwyaf wrth gwrs), yr *hotels*, a'r *restaurants*. Mae'n rhy hwyr, fodd bynag, i weled llawer heno, a ninau yn rhy flin. Y peth mwyaf neillduol a dynodd ein sylw oedd un o'r *restaurants*—yr oedd yn ardderchog iawn: ni welsom yr un *coffee shop* yn Llundain erioed yn gyffelyb mewn maint nac ardderchogrwydd. Enw Lladin Brussels oedd Bruxellae, gair yn deilliaw oddiwrth *Breeksel* (*cors*), neu oddiwrth *brugh* (*pont*, pont ar yr afon Senne). Mae hanes Brussels yn cyrhaedd yn ol i'r 7ed canrif. Codwyd y tai cyntaf ar Ynys St. Gery, lle a enwyd ar ol Esgob Cambray, yr hwn a adeiladodd eglwys yno. Dygwyddodd dau dân yma yn 1326 a 1405. Dinystriwyd 2,400 o dai trwy y cyntaf, a 1,400 trwy yr ail. Gwarchaewyd y ddinas yn 1213 gan y Saeson. Sefydlwyd Hospital St. Petr yn wreiddiol i dderbyn clwyfedigion y Croesgadwyr ar eu dychweliad o Palestina. Mae poblogaeth Brussels yn 250,000. Yma y gwneir y *lace* ffeina yn y byd. Mae Waterloo naw milldir o Brussels. Yno y mae tomen i goffhau am y frwydr fawr (1815), 200 troedfedd o uchder, ac arni biler o geryg, a llew mawr o haiarn ar hyny drachefn. Chwefror 5.—*Dimanche* (*Dominica dies*), hyny yw, dydd Sul. Y siopau yn agor, a busnes yn cael ei gario yn mlaen. Gweled angladd hynod, a *band* yn chwareu o'i flaen; elor hynod, *skull and cross bones* wedi eu paentio ar y ffrynt. Methwyd myned i un lle addoliad. Ciniawyd fel o'r blaen. Dim ond dau bryd fel ddoe.

Chwefror 6.—Gadael Brussels am 9.45 a.m., heibio i Liege, yr hon a gymmerwyd gan Marlborough yn 1702. Mae yma *University*, pyllau glo rhagorol, a phoblogaeth o 90,000. Heibio i Verviers, lle gwneir y brethyn a wisgir gan fyddin y Belgiaid; ac i Aix-la-Chapelle (yn Prussia), lle yr arosasom awr a hanner, ac y cawsom gyfleusdra i weled yr eglwys gadeiriol a adeiladwyd gan Charlemagne, yn yr hon

y claddwyd ef. Gwelsom gareg ei fedd yno, ac arni y geiriau *Carolo Magno.* Wedi talu ymweliad â'r *Hot Baths*, dychwelasom i'r stesion i ddysgwyl y trên. Yr ydym yn awr yn nhaleithiau y Rhine, y rhai a fuont yn demtasiwn i Napoleon i ruthro i ryfel. Mae y *climate* yma yn hyfryd. Gwneir yma winoedd ragorol—Hock, Hock-heim. Yr oedd yn ein bryd i gyrhaedd Mayence cyn cysgu, neu Mantz fel y sillebir ef gan y Germaniaid; ond trwy anffawd ffodus mewn cyssylltiad â'n *luggage* yn Aix-la-Chapelle (Aachen), methasom gyrhaeddyd mor bell. Gorfu arnom aros yn Cologne, prif ddinas taleithiau y Rhine. Galluogodd hyny ni i weled dyffryn prydferth y Rhine ar hyd y dydd, ac Oh yr oedd yn ardderchog tu hwnt i ddesgrifiad! Ymddangosai pob modfedd o dir wedi ei wrteithio i'r man eithaf. Ar gribelli'r creigiau yr oedd pob wns o bridd megys yn cael ei ddal at waith. Dyma lle'r oedd y *vineyard terraces*, lle tyfai'r gwinwydd i gynnyrchu'r gwinoedd ydynt syndod yr holl fyd. Gallem feddwl ein bod ni yn Mhrydain yn mhell iawn ar ol gyda golwg ar wneuthur y defnydd goreu o'n tir. Ciniawwyd yn Cologne (Cöln), yn y *railway station;* wedi hyny awd i'r *Hotel du Nord* i gael tipyn o gysgu. Yr oedd yn rhaid gweled ychydig o'r dref cyn hyny wrth gwrs. Dinas gaerog yw Cologne, ac enwog am ei *Gothic Cathedral.* Yr oedd mantell nos yn rhwystr i weled ei hardderchogrwydd. *Dywedir* fod ynddi benglogau tri dyn doeth y dwyrain a aethant i Bethlehem. Ni welais i ddim o honynt, am hyny gallant fod yn benglogau tri Chymro er dim a wn i; a phe gwelswn hwynt, dichon na fuaswn i ddim gwell nâ Diogenes gynt, yr hwn ni allai wahaniaethu rhwng penglog brenin a phenglog cardotyn. Prynais botelaid o *Eau de Cologne.* Oh, ïe, buais bron annghofio dywedyd fod y rhan amlaf o honom yn yfed *Eau* (dwfn) *de Cologne* gyda chiniaw yn lle gwin.

Chwefror 7.—Cychwynwyd o Cologne am chwech y bore, a chyrhaeddwyd Munich neu Munschen (Moon-shine!)* tua deg yn yr hwyr. Taith 500 milldir, ac ni chafwyd fawr chwareu teg am fwyd trwy'r dydd. Pasiwyd trwy Coblentz (Confluentes), lle mae y Rhine a'r Moselle yn cydgyfarfod. Dinas gaerog yw, ac y mae *fortress* Ehrenbreitstein gerllaw yn gallu cynnwys can' mil o ddynion, ac yn cael ei hystyried bron yn anorchfygol. Pasiwyd Mantz, lle carcharwyd ein Richard I. ar ei ddychweliad o'r croesgadau, gan Archddug Awstria. Ar ein taith heddyw, fel ddoe, gwelsom ugeiniau o groesau, a darlun o'r Iesu yn groeshoeliedig arnynt; ac yma a thraw ar gopäau y mynyddoedd, amddiffyn-gaerydd—Prwssian a French—yn dwyn ar adgof i ni sefyllfa beryglus yr ardal, ac yn rhoddi ystyr newydd i'r dôn "Die Wacht am Rhein,"—*The watch on the Rhine.* Croeswyd y Danube. Pasiwyd Augsburg.† Yma y cyhoeddwyd y gyffes ffydd Lutheraidd, Meh., 1530, yn cynnwys 28ain o erthyglau—21ain yn gosod allan

---

* Tref Monachod.

† Ychydig i'r deheu cyn dyfod i Augsburg, y mae Blenheim, lle'r enillodd Duc Marlborough fuddugoliaeth ar y Ffrancod yn 1704, am yr hyn derbyniodd gan y Senedd Brydeinig Blenheim House a Manor Woodstock.

ffydd y Lutheriaid, a 7 yn gwrthwynebu'r Pabyddion. Gwrthododd Zwingli ei llawnodi. Cyhoeddodd Faber attebiad iddi yn mis Awst yr un flwyddyn. Pasiwyd gerllaw i Nuremberg, lle y dyfeisiwyd oriorau yn yr 16eg ganrif, y rhai a alwyd yn wyau Nuremberg. Yn Munich, prif-ddinas Bavaria, mae 140,000 o drigolion.

Chwefror 8.—Gadael Munich am 9.45., a.m. Eira, ac yn oer iawn. Y *railway carriages* yn gyssurus iawn, yn cael eu twymo trwy bibau. Cyfnewid hollol yn agwedd y wlad; yn tynu at yr Alps. Dyfnder mawr o eira; yr eira yn flin i'r llygaid. Tai yn isel ac yn *flat*. Digonedd o goed,—ymddengys fel y tanwydd cyffredin. Stesions wedi eu haddurno; buddugoliaeth y Prwssiaid yn rhywle. *Dywedir* fod Paris wedi syrthio. Gwelsom *Ambulance Train*—clwyfedigion y Germans; golwg dost arnynt. Clywsom fod coffi twymn yn cynnyrchu ac yn cadw mwy o wres yn y corff nâ gwirodydd; yn tueddu i gredu hyny. Yr olwg gyntaf ar yr Alps; dau o'r gloch. *Watches rectified.* Teithio i'r dwyrain yn dodi'r *watches* allan o le bob mynud. Llosgi tyweirch. Rosenheim, Austrian *frontier*. Tyrol. Hetiau hynod iawn. Innspruck (Bruck—pont) ar yr afon Inn. Cysgu yn Hotel Austria. Gwelyau hynod. Gwely pluf tanom, y dillad gwely arnom, a gwely pluf *(eyder down)* ar hyny. Gwely oer wedi'r cwbl.

Chwefror 9.—Gadael am bedwar yn y boreu. Croesi'r Alps trwy y Brenner Pass. Croesi'r afon Adige. Myned heibio Trent, lle cynnaliwyd cymmanfaoedd pwysig 1545-1563. Heibio Verona (yr ydym yn Italy yn awr) enwog am ei *Roman Amphitheatre*, bedd y Pab Lucius III., hen lyfrgell werthfawr iawn. Heibio Vicenza, enwog am ei sidan. Heibio i Padua neu Padova, lle mae eglwys Sant Antwn; prif-ysgol gyda mil o fyfyrwyr a thriugain o athrawon—oll bron yn adnabyddus trwy Ewrop. Pasio trwy'r wlad harddaf yn y byd heddyw. Cyrhaedd Venice neu Venezia neu Venedig, rhwng pump a chwech yn y prydnawr. Mae i bob tref bron, ragor nâg un enw ar y cyfandir. Nid oes dref yn y byd yn gyffelyb i Venice. Dim *streets* yma. Mae'r dref wedi ei hadeiladu yn y môr. Eir o dŷ i dŷ mewn bad a elwir gondola. Y gondola yw'r *carriage* sydd yma. Un o bob pedwar o'r trigolion yn *paupers*. Erthygl ar Venice ar y daith adref; mae'n teilyngu hyny. Hyd yr Aipht, os yn bossibl, yn y llythyr nesaf.

S.

YSTYR A DYLANWAD Y SYMMUDIAD UNDODAIDD.

Pan y dygwyd Undodiaeth gyntaf i sylw neillduol yn y wlad hon ac yn America yr oedd yr holl fyd Protestanaidd yn dal yn hanfodol yr un gred—credo ag oedd wedi ei gosod ar ei wddf fel iau orthrymus gan awdurdod John Calvin, y diwygiwr mawr o Geneva. Calfiniaeth bur neu gymysg oedd athrawiaeth yr holl eglwysi Protestanaidd. Dys-

gyd hi yn namyn deugain Erthyglau Eglwys Lloegr, yn *Nghatecism* Westminster, a cyffesiadau ffydd ereill mewn gwahanol wledydd. Unig ymdrech duwinyddiaeth rydd i lawr at amser Undodiaeth oedd adeiladu cyfundrefn a fyddai yn edrych fel Calfiniaeth, heb fod yn wirioneddol felly. Darfu i Joseph Priestley, un o'r didwyllaf a'r dewraf o ddynion, er ei fod yn syml a gwylaidd fel plentyn, ac yn feddianol ar dawelwch enaid na allasai gwawd nac erledigaeth ei aflonyddu, dori y swyngyfaredd oedd wedi rhwymo meddyliau dynion gyhyd o amser. Mae'n wir fod Socinus a'r brodyr Polaidd yn mhell cyn hyny wedi dadleu gyda'r gallu a'r craffder mwyaf, a chyda rhesymeg anatebadwy yn erbyn Calfiniaeth, ond yr oedd eu hysgrifeniadau wedi eu cloi i fyny mewn cyfrolau Lladinaidd, ac yn anadnabyddus i'r bobl. Yr oedd Dr. Priestley a'r Undodiaid yn gwadu Duwdod Crist, y Drindod, y Llwgr Gwreiddiol, yr Iawn, Ysprydoliaeth Lythyrenol y Beibl, a Chosp Dragwyddol—mewn gair, pob athrawiaeth oedd yn cael ei hystyried fel yn hanfodol yn nghredo y byd Cristionogol.

Yn lle y Drindod, dysgent Undod syml Duw. Cyhoeddent mai tystiolaeth y Beibl o'i ddechreu i'w ddiwedd yw,—"Clyw O Israel! yr Arglwydd dy Dduw, un Arglwydd yw," ac "I ni nid oes ond un Duw y Tad." Un Duw uwchlaw pawb, trwy bawb, ac yn mhawb; un Duw yn dadguddio ei hun mewn natur yn ei threfn fawreddog, yn ei phrydferthwch goruchel a'i hamrywiaeth diderfyn; yn dadguddio ei hun yn Nghrist fel Tad a Chyfaill ei holl greaduriaid; yn dadguddio ei hun yn ngreddfau a chymhwysderau anfarwol yr enaid—dysgent *Ef* yn gyntaf, ac *Ef* yn ddiweddaf, fel yn anfeidrol mwy gogoneddus yn ei symledd dwyfol nag unrhyw uniad dirgelaidd o drindod o bersonau mewn un sylwedd.

Yn lle Duwdod Crist, dysgent ei Ddyndod dwyfol, gan ei alw nid yn Dduw Fab ond yn Fab Duw. Yr oedd cariad dynol a gwirioneddau dynol Iesu Grist, ei garedigrwydd, ei dduwioldeb, ei ddynoliaeth, ei wroldeb, a'i ostyngeiddrwydd, oll wedi eu cymmylu a'u cuddio gan athrawiaeth gyfriniol ei Dduwdod. Os yw efe yn Dduw anfeidrol, yna nid yw ei gariad yn unrhyw dynerwch dynol ag y gallwn ni ei efelychu. Mae ei wroldeb yn ddiystyr, oblegyd beth sydd gan Dduw i'w ofni? Mae ei ostyngeiddrwydd yn dwyll, oblegyd sut gall Duw weddio ac addoli? Undodiaid oedd y cyntaf a'i gwnaeth yn bossibl i'r byd i weled cymmeriad nefol y *dyn* Crist Iesu, ac felly i ddeall beth yw cymhwysderau a thynged dyn.

Yn lle llygredd gwreiddiol y natur ddynol, dysgai yr Undodiaid fod dyn wedi eu wneyd ar ddelw Duw, a'i fod ychydig yn is nâ'r angylion; ac nad yw efe ddim i ddirmygu ei hun, ond i barchu ei hun; fod yn mhob dyn rywbeth da—rywbeth dwyfol. Yr oedd yr hen dduwinyddiaeth yn dysgu dynion nas gallasent feddwl yn rhy wael am danynt eu hunain; ond dysgai yr Undodiaid ddynion i barchu eu hunain, ac mae hunanbarch yn wreiddyn llawer o rinweddau.

Yr oedd yr hen dduwinyddiaeth yn haeru na allasai Duw faddeu heb iawn; fod ei gyfiawnder yn gofyn aberth; ac i Grist i gael ei gospi yn lle pechaduriaid, er mwyn i Dduw faddeu iddynt. Gwadai yr Undodiaid fod unrhyw anhawsder o'r fath yn bodoli. Dywedent nad oedd yn

fwy anhawdd i Dduw i faddeu i'w ddyledwyr, nag oedd i ddyn da faddeu i'w ddyledwyr *cf*,—a bod trugaredd anfeidrol Duw yn cael ei dywyllu gan y fath athrawiaeth. Dysgent fod Duw yn barod i faddeu can gynted ag y mae dyn yn barod i edifarhau, a bod marwolaeth Crist yn arddangosiad nid o'r digofaint dwyfol ond yn hytrach o'r trugaredd dwyfol.

Yr oedd yr hen dduwinyddiaeth yn gwneyd o'r Beibl yr hyn nad yw yn proffesu ei fod—yn llyfr anffaeledig o'i ddechreu i'w ddiwedd. Mae yn rhaid i ni gredu holl chwedlau a thraddodiadau yr Hen Destament, fod y byd wedi ei greu mewn chwe diwrnod; mae'n rhaid i ni gredu ystoriau Jonah a Joshua, a pheidio gwneuthur sylw o wrthddywediadau ac annghyssonderau; ac mae'n rhaid i ni dderbyn amgyffredion barddonol plentyndod y byd fel dadguddiad dwyfol. Yr oedd yr Undodiaid yn gwadu hyn; dywedent fod y Beibl yn lyfr dynol, yn rhoddi cyfrif o ddygwyddiadau y byd mewn ffordd syml a dynol, a bod ei ysgrifenwyr yn agored i gamsyniadau aml yn eu tystiolaeth; ac er eu bod yn fynych wedi eu hysprydoli yn ogoneddus i weled a chyhoeddi gwirionedd dwyfol, etto nid oeddent byth yn honi anffaeledigrwydd.

Gwadai'r Undodiaid hefyd athrawiaeth cosp dragwyddol: dywedent ei bod yn gabledd ofnadwy ar y Duwdod i'w gyhuddo o ymddwyn tuag at ei blant yn y modd hyn. Honent fod cosp yn y byd arall fel yn y byd hwn yn adferol, yn tueddu i'n diwygio a'n gwneuthur yn well; ac y bydd pob dyn mor ddedwydd yn y byd a ddaw ag mae yn alluog ac yn gymhwys i fod, ac yn lle bod yno ddim ond dau gyflwr —un o ddedwyddwch anfeidrol a thragwyddol a'r llall o drueni tragwyddol—dysgent y bydd yn debygol filiynau o wahanol gyflyrau yn y byd nesaf, fel maent yn y byd hwn. Y cyfryw oedd tystiolaethau a barnau yr Undodiaid boreu yn Lloegr ac America, a'r cyfryw ydynt yn parhau hyd y dydd heddyw. Beth yw y canlyniad? Nid eu bod wedi ffurfio enwad mawr, gyda miloedd o eglwysi. Nid yw Undodiaeth wedi dyfod yn bren mawr, yn nghangau yr hwn mae holl adar y nefoedd yn nythu. Ond mae wedi bod ac yn bod fel ychydig lefain yn lefeinio yr holl does. Mae wedi dylanwadu ar Galfiniaeth yn y fath fodd, fel nas gellir dweyd ei bod yn ffynu yn un lle yn awr yn ei ffurf bur a syml. Mae wedi dwyn oddiamgylch deimlad mwy brawdol a rhyddfrydig yn yr holl eglwysi. Er fod yr hen gredoau yn aros, a'r hen athrawiaethau yn parhau i gael eu proffesu; etto arosant fel mae y rhew yn aros pan yn nofio mewn afon ogleddol, yn y gwanwyn; mae yn nofio ar y wyneb, ac yn ymddangos yn grwn ac yn galed, ond mewn gwirionedd, mae'n llawn dwfr, ac yn barod i suddo. Rhyw foreu fe gwyd yr haul, a diflana y rhew o'r golwg am byth.

Ond mae'r Undodiaid, heblaw cynnorthwyo i ymlid i'r neilldu yr hen athrawiaethau ydynt yn dwyn dianrhydedd ar Dduw yn gystal ac ar ddyn, wedi cymmeryd rhan hefyd er ceisiadu *egwyddorion* ydynt yn fwy pwysig byth. Fel ag y darfu i'r hen *Alchemists*, wrth ymdrechu troi y meteloedd yn aur, ddarganfod Efferylliaeth; felly y darfu i'r Undodiaid, wrth geisio dymchwelyd y Drindod, ddarganfod egwyddorion

Cristionogaeth rydd. Arweinwyd hwy i weled ac i ddal mai sylwedd Cristionogaeth yw daioni,—nid credo, nid defod, nid proffes, ond bywyd. Dacthant i gofleidio egwyddor cynydd, a blaenfynediad, ac i ddysgu fod Cristionogaeth fel profiadau a chyrhaeddiadau dynol ereill yn gymhwys ar gyfer dadblygiad a diwygiad parhaus. Dysgent fod cydsyniad goddefol a rhyw egwyddor yn llai cymeradwy gan Dduw, na meddwl gonest, bywiog, rhydd, ac annibynol, hyd y nod pe byddai'r meddwl hwnw yn arwain i gyfeiliornad am amser; ac yn lle ymwahanu oddiwrth ddynion gonest, oblegyd eu bod yn gwahaniaethu oddiwrthym mewn barn, yr ydym yn rhwymedig i uno â phawb ydynt yn caru Duw a dyn. Felly gosodent i lawr yr egwyddorion, ar sail y rhai yn unig y gall yr eglwys Gristionogol ddyfod yn un. Mae gan yr eglwys Babyddol undeb, ond dim rhyddid. Mae wedi cyrhaedd undeb mewn ffurf, trwy beidio caniatau argyhoeddiad personol ac annibynol. Mae pob sect yn dysgu fod yn rhaid i ddynion feddwl drostynt eu hunain, ac yna yn gomedd uno â'r rhai ydynt yn meddwl yn wahanol iddi. Ond yr Undodiaid yn unig o'r holl enwadau sydd yn honi y dylai dynion da i gyduno a chydweithredu, beth bynag fyddo gwahaniaeth eu credo, ar y sail mai gwir undeb yr eglwys Gristionogol yw undeb yr yspryd, nid y llythyren,—undeb sydd yn gorwedd o dan bob gwahaniaeth, ac yn tueddu i wneuthur yr eglwys yn wir *gatholig* a chyffredinol, yn yr hon y plyga *pob* glin, ac y cyffesa *pob* tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad.

J. F. C.

LLYTHYR GRYMIALYDD.

Mae genyf yn awr ryw ychydig oriau o hamdden, ac wedi eistedd i lawr yr wyf yn cymmeryd fy ysgrifbin yn fy llaw i ysgrifenu llythyr i'r Ymofynydd, os gwelwch chwi, Mr. Golygydd, ef yn deilwng o gongl yn eich misolyn. Yr wyf yn golygu iddo fod yn fath o anerchiad (maddeuer ei amherffeithrwydd) i'r Undodiaid yn gyffredinol, gan obeithio y gwnant ei ddarllen; ac os na bydd yn dderbyniol gan bawb, na fydded iddynt gymmeryd eu tramgwyddo gan ei gynnwysiad. Mae fy amcan yn dda o leiaf, ac hyderwyf y bydd i hyny esgusodi fy eofndra, ond esgusodi neu peidio, ni ddaw neb i wybod pwy yw yr awdwr oddieithr i chwi, Mr. Golygydd, droi yn fradwr i'ch gohebydd annheilwng. Gwnaf draethu fy nheimladau fy hun, er yn ddigon anfedrus, a gwn yn dda fod llawer yn Nghymru a Lloegr heb fod yn ddieithr i'r unrhyw. Ar ryw olygiadau efallai mai doethach i ni fel Undodiaid fyddai peidio dynoethi ein gwendidau a'n beiau o flaen ein cydgristionogion o enwadau ereill, etto nid wyf heb ledgredu y gwna hyn mewn llawer o amgylchiadau fwy o dda na drwg. Mai felly y byddo ar hyn o bryd yw gostyngedig ddymuniad ysgrifenydd y llinellau hyn.

Yr ydym ni, yr Undodiaid, gan nad lle byddo'r man a pheth fyddo'r amgylchiadau, yn ymffrostio cymmaint â neb yn ein daliadau crefyddol; maent hefyd yn deilwng o'n hymffrost. Mae Undod a Thadoldeb Duw yn ymadrodd sy'n swnio yn dda ac yn swnio yn uchel weithiau; a chredwyf nad oes un athrawiaeth o uwch na gogyfuwch chwaith, mai hi yw'r unig athrawiaeth, gydag amser, a ddadymchwela eilunaddoliaeth, yr unig un a all fod yn gatholig neu yn gyffredinol, athrawiaeth fawr y milflwyddiant. Mewn siarad dywedwn yn uchel fel hyn am ein symmudiadau, yr ydym yn eu mawr brisio, ac nis gallwn eu prisio yn ormodol; ond atolwg, pa beth ydym ni yn wneyd dros eu cynnydd a'u llwyddiant? Nid yw siarad yn ddigon, er siarad yn ffraeth hefyd, mae eisiau gwneyd rhywbeth. A ddysgwyliwn i'r gwirionedd fyned rhag ei flaen yn hwylus tra yr ydym ni yn plethu dwylaw yn hollol ddifater a diymdrech? 'Rwyf yn teimlo cywilydd a blinder meddwl weithiau pan ystyriwyf mor lleied yw'r cynnorthwy a'r amgeledd a rydd yr Undodiaid i achos y gwirionedd. A chawn ni ddim diwygio? Mae'r enwadau ereill yn gweithio mewn amser ac allan o amser; mae ganddynt drefn ar eu gwaith; mae gan pob aelod ei waith ei hun yn ol ei alluoedd a'i gyfleusderau; mae yr holl aelodau o'r mwyaf hyd y lleiaf yn cydweithio; ac felly mae llwyddiant yn canlyn, os yw cynnydd rhifedi a dylanwad ar y wlad yn brawf o lwyddiant. Paham na bae'r Undodiaid yn dilyn eu siampl mewn pob daioni a berthyn iddynt? Efallai ein bod yn ystyried fod yr enwadau Trindodaidd yn rhedeg i ormod eithafoedd, a chredwyf eu bod mewn llawer o bethau—maent weithiau yn rhoi tro i'r cylch poeth (*torrid zone*), ond nid yw hyny yn un rheswm paham y dylem ni fyw byth ac yn dragywydd yn y rhew mawr yn y *frigid zone*. Pe yn ymdrechu ac yn aberthu, dyweder hanner cymmaint ag a wna ein cyfeillion Trindodaidd, byddai mwy o lewyrch ar ein hachos, a byddem ninau yn fwy teilwng o hono.

Ond er ein bod fel corph yn rhwym o gyfaddef ein hoerfelgarwch a'n difaterwch, etto mae rhai dynion yn ein plith yn ser disglaer, ac yn ser o'r *first magnitude*, dynion ag na fedd un enwad o'u gwell yn mhob ystyr, ie y mae ychydig enwau hyd yn ôd yn Sardis y rhai a rodiant mewn dillad gwynion oblegid teilwng ydynt. Dymunwn siarad yn barchus am y rhai'n, dymunwn eu dyrchafu i'r uchelion; ac er nad iawn i mi eu henwi yma (yr wyf yn adnabod llawer o honynt); etto credwyf fod eu henwau yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd. Wel, pa fath ddynion yw y rhai'n, meddai rhywun, pa nodau sydd arnynt fel y gellir eu hadnabod? Byddai yn anhawdd, ac hefyd yn gofyn gormod o amser a gofod, i roddi darluniad cyflawn o honynt, ac felly ni chaf ond crybwyll rhai o'r prif bethau a'u gwahaniaethant oddiwrth Undodiaid ereill. Dynion ydynt, yn y lle cyntaf, sydd wedi darllen ac ystyried ac wedi cael eu hargyhoeddi yn drylwyr o wirionedd Undodiaeth, dynion sydd yn ei huchelbrisio, dynion sydd yn y cyhoedd yn gystal ag yn y dirgel, yn ei hamddiffyn pan fyddo camgyhuddiadau yn cael eu dwyn yn ei herbyn, yn gwneuthur a allant dros ei llwyddiant, yn ymdrechu dysgu eu plant ac ereill i fynu yn ei hegwyddorion, ac uwchlaw pob peth yn ei harddu a buchedd dda.

Nid ydynt byth yn esgeuluso eu cydgynnulliad ar y seithfed (?) dydd i addoli; nid ydynt byth yn absenol o'r Ysgol Sul beth bynag fyddo'r hin, ai oer ai gwresog; yn mha ffordd bynag y gallant wasanaethu yr achos gwnant hyny â'u holl egni—â phen, â llaw, ac â llogell; maent yn teimlo mai eu dyledswydd yw gwneuthur pob ymdrech ac aberth dros yr hyn a gredant sydd wirionedd Duw, ac y maent yn cael pleser mwyaf eu bywyd yn y cyflawniad o'u dyledswydd. Oni bai rhyw ychydig bersonau fel hyn, yn wyr a gwragedd, meibion a merched, y rhai sydd yn dwyn pwys a gwres y dydd, nis gwn pa beth a ddelai o'n hachos a'n cynnulleidfaoedd. Diolch am eich sel, a'ch llafur, a'ch ffyddlondeb, gyfeillion anwyl. Carwn yn fawr weled eich rhifedi yn lluosogi—y fechan yn myned yn fil a'r gwael yn genedl gref. Daliwch ati, na laeswch ddwylaw, na wangalonwch oherwydd difaterwch ereill, yn mlaen â chwi trwy bob rhwystrau gan wybod na bydd eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd. Rhaid i mi yn bresenol eich gadael ar hynyna a myned i gwmni o waeth.

Mae dosparth arall o Undodiaid i gael lawer o raddau yn îs nâ'r uchod, amlach eu rhifedi, ond llai eu teilyngdod. Yn y dosparth hwn mae yn ddiau amryw o ddynion call, yn deall yr athrawiaeth yn weddol dda, yn medru ymresymu o'i phlaid heb gywilydd i'w harddel lle byddo profedigaeth i'w gwadu; ond nid ydynt yn ei gwerthfawrogi yn ddigonol fel ag i deimlo pleser bywiog mewn ymdrechu drosti a gwneuthur rhyw ychydig aberth dros yr achos yn awr ac yn y man pan fyddo hyny yn ofynol. Mae derbyn yr Ymofynydd yn rhy gostfawr ac yn ormod peth i rai, ie hyd yn od rhai a allant wneuthur hyny yn dda. Pryd arall maent yn ewyllysgar i gynnorthwyo ond ceisio ganddynt, gwnant eu gwaith ond ei ddangos iddynt, dilynant ond ni arweiniant. Nid ydynt mor sicr â'r *class* blaenaf sydd wedi bod dan sylw i gyrchu i'r addoliad bob Sul, trwy bob tywydd a rhwystrau; mae eisiau bod gartref, neu fyned ar neges, neu wneuthur rhywbeth arall yn aml iawn. Rhyw *bythefnosolion* ydynt fynychaf a chan mwyaf. Gall fod rhai o honynt yn byw yn mhell o'r capel ac felly a chanddynt ryw esgus dros beidio cyrchu i'r cwrdd yn fynychach, ond y mae hefyd rai yn byw yn ddigon agos i'r capel heb ddim yn eu rhwystro i fyned yno ond diogi a difaterwch. Nid wyf yn condemnio'r *class* hwn yn gyfangwbl, oblegid y mae yn perthyn iddo amryw ddynion da iawn, ac y mae yn llawer o fendith i'r achos eu bod. Wrthych chwi frodyr a chyfeillion anwyl sy'n perthyn i'r dosparth hwn yr wyf yn cymmeryd fy nghenad i ddweyd: Bydded ynoch dipyn mwy o fywyd, mwy o gariad at y gwirionedd, mwy o chwant gweithio, a mwy o chwant llwyddiant a buddugoliaeth. Gwnewch eich meddwl i fynu i fyned i'r cwrdd a'r Ysgol foreu a nawn bob dydd Sul am dri mis, ac erbyn hyny yr wyf yn meddwl y byddwch yn teimlo'r gwaith yn rhwydd ac yn bleserus, ac y byddwch yn fuan iawn yn sefyll yn ogoneddus, yn mhob ystyr yn y *class* blaenaf.

Yn nesaf yr wyf am ddweyd gair neu ddau wrth yr Undodiaid hyny sydd ganddynt enw eu bod yn fyw ond marw ydynt fel angel eglwys Sardis gynt. Nid wyf yn eu collfarnu *altogether*, nid ydynt yn hollol

ddiddaioni. Maent yn aelodau eglwys, cyfranant at y weinidogaeth, at adnewyddu ac addurno'r capel, ac at y treuliau cyffredin ereill. Maent yn myned i'r cwrdd bob mis, bob Sul Cymundeb fel rheol; math o *fisolion* ydynt, yn penderfynu cadw *possession* o'u eisteddleoedd gan nad beth yn ychwaneg. Wel, mae rhyw ychydig ddaioni yn hyn a'r cyffelyb, ac yr wyf yn ddiolchgar am dano; ond yn wir nis gwn beth a ddelai o Undodiaeth pe yn gorfod ymddibynu yn gyfangwbl ar bersonau o'r fath yma. Wrth y cyfryw dymunwn ddywedyd, diolch i chwi am eich cynorthwy arianol, ac am eich presenoldeb misol yn y cysegr; gallasech omedd pob un o'r ddau, ond yn wir cofiwch mai bach iawn yw'r cyfryw wasanaeth i achos Iesu Grist. Beth pe gwnaech *dreio* (gwn y byddai yn orchwyl caled ar y cyntaf), dyfod i'r cwrdd bob pythefnos am dri mis, ac i'r Ysgol Sul unwaith y mis dros yr un amser. Cadwai hyn, o leiaf, eich dillad heb lwydo a phryfedu, ac efallai yr ystwythai eich cymalau yn raddol, y caech ryw ychydig o wres ysprydol, y teimlech chwant i wneuthur rhywbeth tuag at adeiladu yr eglwys, pe byddai hyny ond *tendio'r* ceryg a'r morter. Ymdrechwch, gyfeillion anwyl, ryw ychydig, yr wyf yn atolwg i chwi; y cynhauaf yn wir sydd fawr ond y *gweithwyr*, dyna'r drwg, sydd yn anaml.

Mae mathau ereill o Undodiaid i'w cael, ac yr oeddwn yn bwriadu dywedyd ychydig eiriau wrthynt hwythau; ond yr wyf yn gweled fod y llythyr hwn wedi myned yn rhy faith eisoes; rhaid imi gan hyny derfynu ar hyn o bryd, ac ysgrifenu epistol arall, wedi y caffo hwn ymddangos, os y ca o gwbl.

GRYMIALYDD.

Y LLYFR CORN.

Y LLYFR CORN ydoedd llyfr ysgol cyntaf ein henafiaid; ac hyd amser Sior II., yr oedd yn gyffredin yn mhob rhan o'r wlad. Yr oedd yn gynnwysedig o un ddalen, ac ar hon yr oedd yn argraffedig y llythyrenau, detholiad o eiriau unsill, a gweddi'r Arglwydd. Yr oedd y ddalen yma wedi ei phastio ar ddarn o bren o ffurf a maint tebyg i frws gwallt; a thros y ddalen, er ei hamddiffyn, yr oedd llafn o gorn teneu wedi ei osod, yr hwn a roddodd iddo yr enw o "Lyfr Corn." Weithiau gelwid y llyfrau yma yn "restri-cris-croes" neu "cris-croes-rows,"—enw nad yw ei darddiad yn amlwg iawn ar y cyntaf. Ar ddechreu y rhes gyntaf o lyth'renau—rhes y prif lyth'renau—yr oedd llun croes yn wastad yn cael ei dynu. Y linell hono—y gyntaf i'w dysgu—a gafodd felly ei galw yn "Christ-cross-rows;" ac yn raddol, rhoddwyd yr enw hwn i'r llyfr oll. Yn y cyffredin, yr oedd twll yn *handle* y llyfr, trwy yr hwn y cylymid ef wrth wregys yr ysgolhaig. Cawn felly darddiad y gair "cris-croes."

Marwgofion.

Bu farw, Medi 4, 1872, Mr. Anthony Davies, o Coedmawr Fawr, ger Llanbedr, Ceredigion. Nodweddid ef fel gwr gonest, cywir, a dihoced yn ei holl ymdrafodion efo masnach a thrafnidaeth y byd hwn. Yr ydoedd yn fab i'r diweddar hen bererin clodwiw, Mr. Timothy Davies, Ffoes y ffin, Cellan, yr hwn a anfarwolodd ei hun fel dyn geirwir, gonest, a didderbyn wyneb, selog, ac ymdrechgar o blaid y "ffydd a roddwyd i'r saint." Hunodd Anthony Davies, mewn henaint teg yn 87 oed. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Cellan, yn nghladdfa y teulu.

[Ni ddaeth y cofiant hwn i law mewn amser i rifyn Rhagfyr, ond drwg genym anghofio ei ddanfon yn brydlawn i'r Golygydd presenol. Anghof yn wir aeth arnom oblegid nid oes neb a deimla fwy o barch na ni i'r trengedig, perthynasau yr hwn sydd wedi bod yn dàl cyssylltiad mor agos ag Undodiaeth yn Sir Aberteifi. —Yr hen Olygydd.]

Tachwedd 20, 1872, yn 84 mlwydd oed, bu farw Jenkin Jones, Penyrallt, gynt Heolfaenog, Llandyssil. Claddwyd ef dydd Gwener canlynol yn Pantydefaid, lle yr oedd wedi bod yn aelod er pan yn ddyn ieuanc. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. T. Thomas. Cyn ei oddiweddyd gan henaint ac afiechyd, nid oedd hin rhy oer, rhy wlyb, na rhy wresog yn abl i'w rwystro i fod yn bresenol bob Sul yn yr addoliad. Nid rhyw iar-fach-yr-haf o grefyddwr oedd. Yr oedd yn ddyn diniwed a charedig, ac mor berffaith Cristion a llawer sydd yn fwy eu hymffrost.

Rhagfyr 29, 1872, bu farw John Davies, Tan'coed, Llanwenog, anwyl dad y Parch. John Davies, Alltyplaca. Claddwyd ef yr 2il o Ionawr yn ymyl ei briod yn Alltyplaca. Yn y ty cyn cychwyn darllenodd a gweddiodd y Parch. W. Thomas, A.C., ac wrth y drws cyn codi'r corph gweddiodd y Parch. R. C. Jones. Yn y capel pregethodd y Parch. T. Thomas. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod o gynnulleidfa Capelygroes. Yn ei ieuenctyd yr oedd yn un o ddysgyblion y diweddar Barch. John James, yn ystod yr amser y bu hwnw yn gweinidogaethu yn Ystrad Aeron. Cafodd felly ei egwyddori yn dda, a glynodd wrth ei egwyddorion tra y bu byw. Nid rhyw lasdwr oedd ei Undodiaeth, ond crefydd a ddaliai dir mewn tywydd garw, ac a orchfygai mewn dydd o brofedigaeth. Mae crefydd llawer o'r Undodiaid presenol yn amddifad o asgwrn cefn, ac felly yn rhy wàn i ddim. Carem weled mwy o Undodiaid ieuainc yr oes bresenol o'r un *stamp* â rhai o'r hen rai gynt.

Ionawr 3, yn 84 mlwydd oed, Elizabeth Evans, Cribin. Yr oedd ein chwaer ymadawedig yn aelod ffyddlon a rheolaidd yn y Cribin tra parhaodd ei nerth; ac y mae ein gobaith ei bod heddyw mewn gwlad well. Pregethwyd ar ddydd ei chladdedigaeth gan y Parch. R. C. Jones.

Mawrth 3, yn Cae Jacki, Trecynon, Aberdâr, bu farw David Grant, yn 68 oed.

Mawrth 6, wedi dioddef yn dra amyneddgar gystudd trwm dros yspaid tair blynedd, bu farw David Rees, Mwnwr, 35, Meirion Street, Aberdâr, yn 55 mlwydd oed. Yr oedd yn Undodwr goleufarn ac yn aelod o gynnulleidfa yr Hen-dŷ-Cwrdd. Yr oedd yn gymdeithaswr dyngarol o'r iawn ryw, a bu yn swyddog parchus a gwasanaethgar gyda'r *Alfrediaid* ac ereill trwy ei oes. Yr oedd ef fel ei gyfaill ein hen gymrawd mynwesol y "Carw," yn rhyddfreiniwr i'r byw.

Anianol reddf, 'nol deddfau—Ior hyddoeth
A'n rhodda drwy angau,
I'r glyn oer, bawb er glanhau
Ein hên weinion anianau.

Tirionwch Cariad, drwy hunedd—y bedd,
Bair i bawb fwrw'u llygredd;
O'r hwn, Haul mawr gwirionedd,
Yr oll a gwyd ar well gwedd.

Er ini orfod rhoi'r einioes—anwyl,
I fynu drwy dduloes :
Diolchwn i'r Hwn a roes
Olau, i ganfod ail-oes.

Aberdâr. CYNONWYSON.

Mawrth 20, yn Elizabeth Street, Aberdâr, Morgan Morgans, yn 35 mlwydd oed, gan adael gweddw a thri o blant i alaru eu colled anadferadwy.

Mawrth 20, bu farw Anne, merch Edward a Sarah Evans, Pantycelyn, ger Llanwnen, Ceredigion, yn 15 mlwydd oed, wedi dioddef cystudd trwm am dair wythnos. Y Llun canlynol hebryngwyd hi i dŷ ei hir gartref, yn mynwent Capelygroes. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Mr. Thomas, oddiwrth Luc xxiii. 46.—D.E.

Mawrth 21, bu farw Rees Morgan, yr henaf, yn Palmyra, Talaeth Ohio, U.D., o fewn ychydig ddyddiau i fod yn 98 mlwydd oed. Bu yn fwy iach nâ'r cyffredin trwy ei oes, hyd y tair wythnos olaf o'i fywyd. Ganwyd ef ger godrau'r Mynydd du, plwyf Llandybie, Swydd Gaerfyrddin, 1775. Bu yn aelod ffyddlon gyda'r Undodiaid, yn Llandyfan, am lawer o flynyddoedd, dan weinidogaeth y Parch. John Griffiths. Ymfudodd i America yn 1831, efe a saith o'i blant. Yr oedd ei wraig wedi ei chladdu ddeg mlynedd cyn hyny; mae pump o'r plant etto yn fyw. Ann a Thomas a gadwasant ei dy hyd ei farwolaeth. Ei gas bethau oedd, trais a gorthrymder, a'r hyn a allasai a wnaeth mewn perthynas i ryddhad y caethion yn y wlad yr ydym yn byw ynddi. Dywedodd lawer gwaith, y buasai yn foddlawn marw ar ol i'r caethion i gael eu rhyddhau. Bu fyw i weled hyny, a blynyddoedd wedi'n. Dydd ei angladd, yn y tŷ, darllenodd y Parch. Mr. Jenkins, Ymneilldwr. Yna awd a chorff yr hen dad i dy ei hir gartref, i gladdfa yr Ymneilldwyr, Palmyra.

Carai Dduw a charai ddyn,
Fel yr oedd yn caru ei hun.

Y 23ain o Fawrth, yn 75 oed, bu farw Rachel Jones, Factory Gelliaur, Llandyssil. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn Pantydefaid, Pregethodd y Parch. T. Thomas ar yr achlysur.

Y 26ain o Fawrth, yn yr *Asylum* yn Caerfyrddin, bu farw Thomas Jones, gof, gynt o Grugyreryr, Llandyssiliogogo, yn 37 oed. Claddwyd ef yn Llwynrhydowen y dydd Llun canlynol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid.

Y 27ain o Fawrth, wedi cystudd byr ond trwm, bu farw Thomas Jones, saer, Dolgranod, Llanwenog yn 23 oed. Claddwyd ef y dydd Sadwrn canlynol yn Pantydefaid. Pregethodd y Parch. T. Thomas.

Congl yr Holiedydd.

1. A'r boreu yn *blygeiniol* iawn. Beth yw blygeiniol?

2. Os gwir fod Crist yn Dduw, paham nad gwir hefyd fod Mair yn fam Duw, fel y creda'r Pabyddion?

NID PABYDD.

3. Allan o gasgen yn cynnwys 8 galwyn, tyner pedwar galwyn, trwy ddefnyddio llestr 5 galwyn a llestr 3 galwyn. Nid oes dim *guesio* i fod, ac y mae yn rhaid cael mesur cywir. W. W.

4.—TRAWSOSODIAD.

Idew 'ri taisn 'ir y res,—rylw gesyn
Wwchlua gsrywh werdolmra,
Umawhy ddby asin maneth ebr—y fardy
Fharyc'u Ailuehal efl wns fwdr lerwa.

CALEDFRYN.

Gohebiaethau.

LLEDAENIAD EGWYDDORION UNDODAIDD.

At Olygydd yr Ymofynydd.

Syr,—Yn un o'n newyddiaduron Seisonig ychydig amser yn ol, ymddangosodd llythyr o waith y Parch. R. Spears o Lundain, ar y ffordd oreu i ledaenu egwyddorion Undodaidd mewn trefydd poblogaidd yn Lloegr nad oes gapel o'r enwad ynddynt; yn yr hwn awgrymodd fod un neu ddau o'r gweinidogion i roddi darlith neu bregeth yno yn awr ac eilwaith ar egwyddorion Undodiaeth.

Byddai gweithredu yn ol cynllun Mr. Spears yn Nghymru yn ddymunol iawn. Wele Gaerdydd, Dowlais, Llanelli, ac amrai drefydd poblogaidd ereill, heb un capel Undodaidd ynddynt! Pe byddai i'n gweinidogion gymmeryd yr awgrym a gweithredu arno, sicr genym y byddai i lwyddiant ganlyn. Byddai yr Undodiaid yn y trefydd uchod o ganlyniad yn debyg o gydgyfarfod yn fynych i ymddyddan ar y modd goreu i gael capel o'n henwad ynddynt.

Fe welir trwy Gymru oll, wrth y capeli sydd yn cael eu hadeiladu, bod ein brodyr Trindodaidd a'u holl egni yn ymroi i ledaenu eu egwyddorion, y rhai, yn ol ein barn ni, sydd yn anysgrythyrol a chyfeiliornus. Paham, ynte, na wnawn ninau rhywbeth yn lle gadael pob peth i fyned yn mlaen mor farwaidd?

"Peth eithaf da," meddai rhywun, "ond beth am y draul? Mae yn rhaid i'n gweinidogion gael eu digolledu." Digon gwir dywedwn. Ac fel gwelliant i hyny, crybwyllwn fod Trysorfa i gael ei chychwyn —"Trysorfa er Lledaenu Egwyddorion Undod a idd yn Nghymru.

Gan obeithio y daw y testyn uchod yn mlaen yn Gellionen, y Cyfarfod Chwarterol nesaf.

Ydwyf, &c.,

Caerfyrddin. Daniel ab Ifan.

CYFARFOD CHWARTEROL NADOLIG, 1872.

"*Gwell hwyr na hwyrach.*"

Mr. Golygydd,

Gan fod rhai o'm cyfeillion am weled hanes y cwrdd uchod yn yr Ymofynydd, gobeithiaf y caniata eich gofod i'r ychydig linellau a ganlyn i ymddangos yn y rhifyn nesaf. Anghofiais ei anfon y mis diweddaf.

Cynnaliwyd ef yn y Cwmbach, ar ddydd Nadolig a'r prydnawn blaenorol. Traddodwyd dwy bregeth nos Fawrth, y naill gan J. Davies, a'r llall gan Proff. Evans.

Dechreuwyd boreu dranoeth am 11 gan J. Evans, a phegethodd R. C. Jones bregeth lawn o synwyr. Llefarwyd ar y pwnc pennodedig "*Eiriolaeth Crist,*" gan J. Davies, T. Thomas, Proff. Evans, a T. Lloyd. Wedi hyny pasiwyd penderfyniad yn unfrydol yn ffafr "Mesur dadgyssylltiad yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth," yr hwn sydd i gael ei gynnyg i sylw Ty y Cyffredin gan Mr. Miall yn ystod yr eisteddiad presenol. Cynnygiwyd ef mewn araeth doniol a galluog gan Proff. Evans, eiliwyd gan J. Evans, a chefnogwyd gan J. J. George.

Am 3, pregethodd W. Rees, ac yn yr hwyr am 6, J. Evans a T. Thomas.

Yr oedd y cynnulliadau yn lluosog a'r gwrandawiad yn astud.—E. W. Lloyd.

Darnau Byrion.

Cyssur i'r Gwragedd.—Mae llawer i fam yn ddigalon yn plethu ei dwylaw blinion y nos, ac yn teimlo fel pe na byddai, wedi'r cwbl, wedi gwneuthur dim, er nad yw wedi cael mynyd o esmwythder er pan gododd. Onid yw yn ddim genych fod eich plant bychain diamddiffyn wedi cael rhywun i fyned ati a'u cwynion bychain, a'u llawenydd? Onid yw yn ddim genych fod eich gwr yn teimlo yn "ddiogel" pan

y mae ffwrdd wrth ei orchwylion, oblegid fod eich dwylaw gofalus chwi yn trefnu pob peth gartref? Onid yw yn ddim genych pan y mae ei waith drosodd, fod ganddo noddfa fendigedig gartref, yr hon noddfa yr ydych chwi trwy'r dydd wedi wneuthur yn ddisglaer ac yn gyssurus? O fam flin a ffyddlon, ychydig wyddoch eich gallu, pan ddywedwch "nid wyf wedi gwneuthur dim." Y mae un llyfr lle y mae tystiolaeth decach wedi ei ysgrifenu ar gyfer eich enw. Ceisiwch wneuthur cartref eich gwr yn ddeniadol ac yn hyfryd iddo. Perwch iddo fod yn gyssegr iddo, i'r hwn y dichon efe droi ei galon bob amser oddiwrth flinderau a gofidiau bywyd. Gwnewch ef yn orphwysfa iddo oddiwrth ei ofalon, yn noddfa oddiwrth y byd, yn gartref; nid i'w berson yn unig, ond i'w galon. Efe a ddichon gyfarfod â phleserau mewn tai ereill, ond mynwch iddo gael dedwyddwch yn ei dŷ ei hun.—*Mrs. Balfour.*

Barddoniaeth.

GALARNAD MAM.

Ai marw wyt fy anwyl faban mwyn?
Ai ffoi a wnaethost dros derfynau bywyd?
Oes dim rhyw awel a ddaw etto i ddwyn
I'm clust chwerthiniad llawen fy anwylyd?
Oh trwm yw'm calon! ac oh tost yw'm cur,
A chyflym dreigla'm dagrau goriwaered!
Byth ni chaf deimlo'th freichiau, 'mhlent-[yn pur,
Byth dy gofleidiau'm hanwyl bach diniwed!

Yn felus taenai'r bore-haul â'i wawl,
Gusanau disglaer dros dy wyneb tirion,
Tra mi ger llaw 'n hyfrydu yn fy hawl,
Yn dwys fyfyrio ar dy gain brydferthion;
Mab fy nghymmydog, marw ddichon ef,
Nid ydyw ef mor deg a thlws ei ffurfiad;
Ond angau ei hun eiriolai efo'r Nef,
Er cael i'm bachgen anwyl i arbediad.

Ond na—y llawen lais distewi wnaeth,
A'r dwylaw bychain hefyd lonyddasant;
O'r gruddiau anwyl pob goleuni aeth,
Rhai gynau yn rhosynau a fflachiasant.
Yn ofer rwy'n dy alw anwylaf un,
Ac ofer y'th gofleidiaf hwyr a boreu;
Oer, oer wyt ti, etto i'm nefol Gun
Ymgrymaf, gwyr Efe pa beth sydd oreu!

T——

MYFYRIAETH WRTH WELED FY HEN SLATE.

Ton.—"Breuddwyd y Bardd."

Draw, draw, pan yn grotyn bach gwridog,
Y boreu'r wy'n cofio'n dda am;
Ces *bencil* a *slate* bert odidog,
Yn newydd o'r *shop* gan fy mam;
A'i geiriau cyssurol, a chusan serchiadol,
Hi'm gyrodd i'r ysgol, yn hwylus fy hynt,
Gan falchder yn 'sponcio fel hydd trwy y gwynt.

Er pŵled yw gwyneb y *slaten*,
Rhyw lewyrch ad-lonol a rydd,
Nes cario fy meddwl fel mellten,
Yn ol i fy mebyd a'i ddydd;
Rhyw deimlad gwynfydig, i'r hen a'r methiedig,
Yw troi y dychymmyg i'r hen amser gynt,
Pan godem fel cewri, gastelli'n y gwynt.

Fel ddoe genym gofio'r amgylchiad,
Y cydiai ein hathraw'n ein llaw,
Tra ninau gan ryfedd ddwys deimlad,
Yn chwysu rhwng balchder a braw;
Trwy lawer o 'sgwrio, mingamu a *blottio*,
Fe ddysgwyd ysgrifio, do, do genym gynt,
A chodwyd castelli'n ddirif yn y gwynt.

Er cymmaint wyf wedi ysgrabin,
A phoeri'n ei gwyneb glân hi,
Mae 'i thymer o hyd 'run mor hawddgar,
Yn para'n was'naethgar i mi;
Er beunydd *ysgriblio*, a phoeri a rhwbio,
Mae 'i gwyneb glan etto yn llyfn, fel cynt,
Ond nid felly'r prydydd â'i gestyll 'n y gwynt.

Adgofion o lechi ein mebyd,
Fo'n gyssur eneidiol i ni,
Pan fyddo penllwydni a'i auaf,
Yn d'od ar ein gwarthaf fel lli';
Wrth gasglu'n cynhaua' ar gyfer y gaua',
Boed hoff genym goffa yr hen amser gynt,
Serch codi castelli rhai gweithiau'n y gwynt.

Abernant. CYNONWYSON.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

BWRDD Y GOLYGYDD.

Mewn Llaw:—Nodweddion Cynhauaf 1872; Y Glaswelltyn; Y Gwcw.
Yn Addawedig:—Y niwed o gynnal Clybiau mewn Tafarndai.

CYFARFOD CHWARTEROL, AC AIL-AGORIAD CAPEL GELLIONEN.

Cynnelir y cyfarfodydd uchod yn y Gellionen, ar y dyddiau Mercher a Iau, y 7fed a'r 8fed o Fai. Amser y cyfarfodydd:—Mercher, 6 o'r gloch yn yr hwyr; Iau, 10, 2, a 6 o'r gloch. Pregethwyr boreu Iau,—Parch. Arthur Ransom, Abertawe, (Saesonaeg); a'r Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid. Hyspysir y pregethwyr ereill dydd Iau ar ol gwasanaeth y boreu. Pwnc y Gynadledd,—"Beth yw sail derbyniad gyda Duw?" Bwriedir gwneuthur casgliad ar ddiwedd y cyfarfodydd dydd Iau, er lleihau dyled yr addoldy. Gobeithiwn gael presenoldeb y gweinidogion yn neillduol, er ei bod yn hytrach yn annghyfleus iddynt oblegid y gohiriad. Mae yn flin genym hyn; ond nis gallasem oddiwrtho.

JNO. EVANS, Gweinidog.

Gellionen, Ebrill 24, 1873.

☞ Pob archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
Aberdare.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, CARIAD, A GWIRIONEDD.

CYFRES NEWYDD] MEHEFIN, 1873. [RHIF 4.

CYNNWYSIAD.

Cadarn sail Duw 73
Urdd y Temlwyr Da 77
Y Crefyddau Ethnig 80
Croesi'r môr tua'r Aifft a Chanaan 85
Horace Greeley 89
Tarddiad yr Athrawiaethau Poblogaidd 91
Nodiadau Gwleidyddol 92
Marwgofion 94
Darnau Byrion 95
Barddoniaeth 96

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ABGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1873. [RHIF 4.

Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

CADARN SAIL DUW.

(2 Tim. ii. 19.)

YR OEDD Timotheus yn enedigol o Lystra, dinas yn Asia leiaf. Pagan oedd ei dad, Iuddewes ei fam, ac yr oedd hi a'i mam yn hynod am eu duwioldeb, ac wedi llafurio'n helaeth i addysgu Timotheus mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyrau Iuddewig.

Wedi rhagymadrodd priodol, y mae Paul yn ei lythyr yn dadgan ei deimladau tyner a gwresog tuag at Timotheus, a'i ddymuniad am ei weled. Annoga ef i fod yn ffyddlon a diysgog yn ei weinidogaeth, i beidio bod a chywilydd arno i ymweled âg ef, ei dad yn y ffydd, yn ei garchar; yr hwn a ystyrid ganddo ef nid yn warth, ond yn anrhydedd, am ei fod yn dyoddef yn achos Crist. Dadgana ei annghymmeradwyaeth o ymddygiad rhai oeddynt wedi ei adael yn ei gyfyngder. Ond y mae'n llawen ganddo gael y cyfleusdra i ganmol serch a brwdianwch, gonestrwydd a diysgogrwydd Onesiphorus, yr hwn oedd wedi ymweled âg ef, a gwneuthur cymwynas iddo yn ei garchar. Gesyd o'i flaen esampl yr Iesu a'r eiddo ei hun; ac oddiar wahanol ystyriaethau, annoga ef i sefydlogrwydd, ffyddlondeb, a doethineb; ac i osod pwys ar y gwirionedd, i rybuddio ei wrandawwyr ar iddynt ymgadw oddiwrth ymryson yn nghylch geiriau, ac i brofi ei hun yn weinidog ffyddlawn a doeth; i ochelyd cyfeiliornadau niweidiol, ac yn neillduol rhai yn nghylch yr adgyfodiad; gan gyfeirio, feallai, at athrawiaeth y Gnosticiaid, y rhai oeddynt y pryd yma yn dechreu cyfodi, ac yn dysgu "ddarfod yr adgyfodiad eisoes." Mae'n amlwg fod yr apostol yn ystyried eu syniadau a thuedd ddrwg ynddynt.

Dalient nas gallai'r adgyfodiad fod yn ddim ond bywyd newydd; fod cyflwr pechod yn cael ei ystyried yn gyffredin yn gyflwr marwolaeth. Dalient athrawiaeth anfarwoldeb yr enaid, a siaradent yn ddirmygus ac yn wawdlyd am y corff, ac am sylwedd yn gyffredinol. Credent na chawsai'r corff byth godi mwy. "Halogedig ofer sain," meddai'r Apostol, "gochel: canys cynnyddu a wnant i fwy o annuwioldeb, a'u hymadrodd a ysa fel cancr: ac o'r cyfryw rai y mae Hymenëus a Philetus, y rhai o ran y gwirionedd, a gyfeiliornasant, gan ddywedyd ddarfod yr adgyfodiad eisoes; ac y maent yn dadymchwelyd ffydd rhai. Eithr y mae cadarn sail Duw yn sefyll, a chanddo y sel hon:—

Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo Ef,	A	Phob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddiwrth annghyfiawnder."

I ba gyfeiliornadau bynag y byddo dynion, trwy gael eu camarwain gan ragfarn, a'u gwneuthur yn falch gan wagedd y byd, yn syrthio iddynt, mae athrawiaeth Crist a thelerau cymmeradwyaeth Duw yn aros yn annghyfnewidiol. Mae cyfammod Duw yn cael ei awdurdodi a'i gadarnhau gan sel, ac ar y sel mae dau argraff—un bob ochr: un yn dadgan beth a wna Duw; a'r llall, beth a ddylai dyn wneuthur. Cyhyd ag yr oedd y cyfammod yn parhau yn ei rym, a'r sel wrtho, yr oedd pob peth yn ddyogel ac yn dda; a byddai pob ymdrech i'w ddadymchwelyd yn ofer.

"Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef." Dyfyniad, feallai, o Num. xvi. 5. Mae geiriau tebyg yno, yn cael eu cyfeirio at Corah a'i gyfeillion, y rhai oeddynt wedi codi gwrthryfel yn erbyn Moses. "Y boreu y dengys yr Arglwydd pwy sydd eiddo Ef a'r sanctaidd." Nis gallai dim fod yn fwy perthynasol i amcan yr Apostol dan yr amgylchiad, na'r cyfeiriad hwn. Ni chaniatasai ei wyleidd-dra iddo ddefnyddio iaith mwy *plain*; etto, pan yn ysgrifenu yn erbyn Hymenëus a Philetus a rhai cyffelyb, nis gallai nodi allan eu drygioni mewn modd mwy bywiog a phenderfynol, a'r perygl oeddynt ynddo o herwydd ei wrthwynebu ef, ac yntau wedi dwyn y fath brofion dros ei gennadwri, na thrwy eu cymharu i Corah a'i gyfeillion, y rhai oeddynt mor feiddgar wedi gwrthwynebu Moses, ac wedi cael eu dinystrio mewn modd mor hynod. Mae fel pe'n dweyd:—Y mae Duw wedi dwyn ei dystiolaeth i'r dynion hyny oeddynt wedi eu happwyntio i bregethu yr efengyl, trwy roddiad helaeth iddynt o ddawn yr Ysbryd Glan. A gocheled y cyfryw a feiddiant wrthod athrawiaeth yn dwyn y fath brawf drosti, rhag iddynt hwy ar ol esampl Corah, ddyoddef yr un gyffelyb dynged.

Yr ochr arall i'r sel, darllenir:—"Pob un sydd yn enwi enw Crist, *ymadawed* oddiwrth annghyfiawnder;" ac yr ydys wedi meddwl fod yma etto gyfeiriad at hanes Corah a'i gyfeillion (Num. xvi. 27.) Meddylir fod yr Apostol wrth y cyfeiriad yn meddwl rhybuddio'r Cristionogion i *ymadael* a phabellau Hymenëus a Philetus, y rhai oeddynt wedi ei wrthwynebu ef. "Pob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddiwrth annghyfiawnder." Dyna ran Cristionogion yn